Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Headlands

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2018**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Headlands yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli yn ardal breswyl Penarth, ym Mro Morgannwg. Mae'n rhan o elusen Gweithredu dros Blant. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau preswyl a dydd yn ystod y tymor i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA).

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 63 o ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 i'r cyfnod ôl-16. Daw bron pob un o'r disgyblion o awdurdodau lleol Cymru, gyda nifer fach iawn o awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae gan 20 o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal.

Nod yr ysgol yw datblygu lles ac annibyniaeth pobl ifanc trwy ymagwedd unigol at addysg a gofal.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf gan Estyn yn Hydref 2012.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 yn caffael cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol mewn ystod werth chweil o bynciau. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae pob disgybl sydd wedi gadael yr ysgol wedi symud ymlaen i addysg bellach, darpariaeth arbenigol, hyfforddiant neu waith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad yn fwy effeithiol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ar y cyfan, ac yn ymateb yn gwrtais a chadarnhaol i bobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. Maent yn meithrin perthnasoedd adeiladol gyda staff addysgu ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda disgyblion eraill mewn perthynas â'u hanghenion unigol.

Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus fel tîm. Maent yn cynllunio gwersi difyr sy'n cynnwys cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion fel cymryd eu tro, trafod a chyfaddawdu. Mae staff yn darparu adborth rheolaidd ar lafar i gynorthwyo ac annog disgyblion yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd tawel a meithringar sy'n canolbwyntio'n gryf ar fodloni anghenion cymdeithasol, emosiynol ac academaidd disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ethos yr ysgol o ddisgwyliadau uchel i bawb. Maent yn hynod weladwy o gwmpas yr ysgol ac yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer staff a disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r safonau ysgolion annibynnol a arolygwyd ar yr ymweliad hwn.

## Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol wedi nodi blaenoriaethau sy'n briodol heriol ar gyfer gwella, yn seiliedig ar ei gweithgareddau hunanarfarnu. Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar feysydd i'w gwella a nodwyd ar yr ymweliad monitro diwethaf, er enghraifft ynglŷn â chofnodi presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu hyn wedi cael digon o effaith ar fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol mewn perthynas ag addysgu a dysgu, fel gwella cysondeb cynllunio athrawon neu ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion dyddiol manwl ynglŷn ag ymgysylltiad disgyblion â dysgu, a'u hymddygiad. Mae cyfarfodydd staff dyddiol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff drafod pryderon yn ymwneud â chynnydd, lles ac ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff yn cofnodi canlyniadau'r trafodaethau hyn mewn dogfennau cymorth ymddygiad disgyblion yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw rhai cynlluniau yn nodi'n glir pa gamau y dylai staff eu cymryd i gynorthwyo rhai disgyblion unigol ag ymddygiad heriol neu nad ydynt yn ymgysylltu'n gyson â dysgu.

## Argymhellion

A1 Parhau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella sy'n weddill a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol

A2 Adolygu cynlluniau cymorth ymddygiad i sicrhau bod arweiniad i staff yn glir ac yn adlewyrchu strategaethau cytûn

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Adolygu pob polisi yn ofalus, yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn hawdd eu darllen a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n gynhyrchiol gydag ymgynghorwyr i adolygu ystod o bolisïau allweddol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu sicrhau bod y polisïau hyn yn gryno a haws eu darllen, a'u bod yn cydymffurfio â'r arweiniad priodol. O ganlyniad, mae'r polisïau hyn yn berthnasol i'r ysgol ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo staff yn eu gwaith gyda disgyblion.

Mae gan yr ysgol gynlluniau datblygedig i adolygu gweddill y polisïau yn nhrefn eu blaenoriaeth yn rheolaidd bob blwyddyn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu'n nodi'r meysydd allweddol y mae angen eu gwella yn glir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys data cyflawniad, arsylwadau addysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni, disgyblion a staff trwy holiaduron rheolaidd, adborth o adolygiadau disgyblion a strwythur cyfarfodydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid strategol i gymedroli ei barnau a llywio ei gwaith hunanarfarnu.

Mae'r prosesau hyn yn helpu sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth effeithiol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn craffu ar y wybodaeth hon yn ofalus ac yn sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n glir yn adroddiad hunanarfarnu manwl yr ysgol. Mae meysydd i'w datblygu yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn yn helpu arweinwyr i gynllunio'n gynhyrchiol ar gyfer gwelliannau i ddarpariaeth yr ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Headlands |
| **Rhif yr ysgol** | 6736025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 16/05/2018 |
| **Perchennog** | Gweithredu dros Blant |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 is-bennaeth, 17 o athrawon, 28 o gynorthwywyr addysgu, 24 o weithwyr cymorth preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 65 |
| **Darpariaeth** | Dydd/38 wythnos breswyl/52 wythnos breswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac anawsterau cysylltiedig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 08/10/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/01/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |